
# Strategaeth Dementia ar gyfer Gorllewin Cymru

## Fersiwn hawdd i ddarllen

| | |
|---|---|
| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru West Wales Regional Partnership Board | Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru yn gofalu am iechyd a gofal cymdeithasol yn ein ardal. |
|  | Mae'r Bwrdd Partneriaeth yn cynnwys cynghorau, y Bwrdd Iechyd a'r Trydydd Sector.<br>Ei pwrpas yw i wneud pethau yn well. |
|  | Mae nhw wedi creu **Strategaeth Dementia.** |

**Beth yw Strategaeth?**

Mae strategaeth yn gynllun i wneud i rywbeth ddigwydd.

**Beth yw dementia?**

- Mae dementia yn gyflwr lle mae'r ymennydd yn dechrau gweithio'n wael.
- Mae llawer o fathau o dementia, a llawer o achosion.
- Gall symptomau o ddementia fod:
    - Colli cof
    - Meddwl yn arafach
    - Cael trafferth gyda geiriau a deall pethau
    - Newidiadau mewn hwyliau
    - Trafferth i symud a wneud pethau pob dydd
- Mae pethau fel arfer yn gwaethygu.
- A gall pobol angen mwy o help.
- Does ddim ateb syml am pam mae dementia yn digwydd.
- Gall byw bywyd iach helpu i'w atal.

| | |
|---|---|
| Attain | Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru wedi defnyddio cwmni o'r enw 'Attain' i helpu datblygu'r strategaeth. |
|  | Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian ar gyfer hyn. |
|  | Mae pobol efo dementia yn dechrau byw yn hirach. |
|  | Felly mae nhw angen mwy o help. |
|  | Nôd y strategaeth yw rhoi gofal gwell i bobl efo dementia a'u teuluoedd. |
|  | Fe wnaethon nhw siarad i bobl â dementia a'u teuluoedd. |
|  | Ac i ofalwyr ac arbenigwyr. |

| | |
|---|---|
|  | Mae mwy o bobol yn cael diagnosis o dementia. |

Mae **diagnosis** yn meddwl mae meddyg wedi gwneud profion sy'n dangos fod gennych salwch neu gyflwr.

| | |
|---|---|
|  | Mae pobol efo dementia angen mwy o help. |
| Llywodraeth Cymru<br>Welsh Government | Mae gan Lywodraeth Cymru **Gynllun Gweithredu Dementia**. |

**Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw i Gymru fod yn ‘genedl gyfeillgar i ddementia sy’n helpu pobl â dementia i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cymunedau.’**

| | |
|---|---|
|  | Mae’r **Cynllun Gweithredu Dementia** yn gosod safonau ar gyfer gofal dementia. |

| | |
|---|---|
|  | Mae'n dweud y dylai gofal fod yn Caredig ac yn Dddeallus. |

Mae **safonau** yn mesur pa mor dda yw pethau.

| | |
|---|---|
|  | Felly, mae **Strategaeth Ddementia ar gyfer Gorllewin Cymru** wedi'i chreu. |
|  | Mae'n dweud beth sydd ei angen ar bobl.<br><br>Nawr ac yn y dyfodol. |
|  | Mae hawliau gan bobl efo dementia. |

"Mae gennym yr hawl i fywyd heb wahaniaethu na chost annheg, i gael ein derbyn a'n cynnwys yn ein cymunedau ac i fyw heb arwahanrwydd neu unigrwydd."


| | **Beth sydd yn y Strategaeth?** |
|---|---|
|  | Mae'n<br>**Cefnogi pobl gyda dementia i fyw'n dda ac yn annibynnol am mor hir â phosibl.** |
|  | Gofal a chymorth arbenigol – yn y gymuned ac yn yr ysbyty. |
|  | Gofal arbenigol i gefnogi pobol pan mae angen mwy o help – yng nghartrefi eu hunain, os yn bosibl. |
|  | Sicrhau fod yna gynlluniau i arbed mwy o bobl rhag ddioddef o ddementia. |
|  | Addysg yn ein cymunedau. |
|  | Creu cymunedau sy'n deall dementia. |
|  | Mae dementia yn fusnes i bawb. |

| | **Beth sy'n bwysig:** |
|---|---|
|  | Mynediad teg i ofal i bawb. |
|  | Mae pawb yn cael ei weld fel unigolyn. |
|  | Mae pobol yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gofal. |
|  | Mae'r holl staff yn barod i ofalu. |
|  | Mae'r strategaeth wedi creu **Llwybr Dementia.** |

Mae **llwybr** yn arwain sut mae rhywun yn symud trwy ofal a chymorth.

| | |
|---|---|
|  | Mae’r llwybr yn rhoi’r person efo dementia a’i gofalwyr yn ganolog i’r cynllun. |
|  | Mae'n annog i wasanaethau weithio'n well gyda'i gilydd. |

**Beth sy’n nesaf?**

| | |
|---|---|
|  | Cytuno ar wariant. |
|  | Creu cynllun gweithredu. |
|  | Sicrhau fod y cynllun yn cael ei wirio, a'i ddiweddaru'n aml. |

**Am fwy o wybodaeth:**

| | |
|---|---|
|  | Galwch 01267 228765 |
|   | Danfonwch e-bost wwcp@carmarthenshire.gov.uk |

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol **Gorllewin Cymru**

**West Wales** Regional Partnership Board